# PAM DEWIS CRONFA GYDA SEFYDLIAD CYMUNEDOL CYMRU?

Mae ein cronfeydd yn cynnig manteision haelioni strwythuredig, heb y cyfrifoldeb o sefydlu a rheoli eich ymddiriedolaeth elusennol eich hun.

| | Ein cronfeydd ✓ | Ymddiriedolaeth Elusennol |
|---|---|---|
| Sefydlu | Cyflym a syml i'w sefydlu | Gall sefydlu a chofrestru gymryd mwy o amser a gall olygu costau cyfreithiol |
| Llywodraethu | Rydym yn rheoli cyfrifoldebau llywodraethu a rheoleiddio | Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am lywodraethu a chydymffurfiaeth gyfreithiol |
| Gweinyddu | Rydym yn gofalu am weinyddiaeth cronfeydd, adrodd a chyfrifon | Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am weinyddiaeth ac adrodd parhaus |
| Rhoi grantiau | Mae ein tîm arbenigol yn rheoli diwydrwydd dyladwy a rhoi grantiau | Mae ymddiriedolwyr yn goruchwylio rhoi grantiau ac yn asesu ceisiadau eu hunain |
| Gwybodaeth leol | Mae dealltwriaeth ddofn o gymunedau Cymru yn helpu i wneud y mwyaf o'ch effaith | Mae ymddiriedolwyr yn adnabod ac yn ymchwilio i sefydliadau yn annibynnol |
| Hyblygrwydd | Dewiswch faint o ran yr hoffech chi ei chael mewn penderfyniadau ariannu | Mae ymddiriedolwyr yn cadw cyfrifoldeb am reoli'r ymddiriedolaeth |
| Buddsoddiadau | Mae cronfeydd yn cael eu buddsoddi'n foesegol trwy ein rheolwyr buddsoddi profiadol | Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am benodi a goruchwylio rheolwyr buddsoddi |
| Preifatrwydd | Gellir enwi cronfeydd yn gyhoeddus neu aros yn anhysbys | Mae gwybodaeth ymddiriedolwyr ar gael yn gyhoeddus fel arfer drwy gofnodion elusennau |

## Dod o hyd i'r dull cywir

Gall cronfa Sefydliad Cymunedol Cymru ac ymddiriedolaeth elusennol fod yn ffyrdd effeithiol o gefnogi'r achosion a'r cymunedau sy'n bwysig i chi. Mae'r opsiwn cywir yn dibynnu ar eich uchelgeisiau, faint o ran yr hoffech chi ei chael a lefel y cyfrifoldeb hoffech chi ei gymryd. Rydyn ni yma i'ch helpu chi i archwilio'r gwahaniaethau a phenderfynu pa ddull sy'n iawn i chi.